Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 9fed Mai, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 pm

Presennol Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Pam Steane Price, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies.
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : **Dim**

Cyn y cyfarfod cafwyd munud o dawelwch gan yr Aelodau er cof am Mr Mike Lewis cyn Faer Cyngor Tref Llandeilo Fawr sydd wedi marw.

Cof 39 / Mai/ 07 Anfonebau i'w talu.
Penderfynwyd y dylid talu'r anfonebau canlynol

Archaeoleg Cambria (Jean Carroll Curtains)	£ 693.00	Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas
WCVA (Cyflogai Ebrill)	£ 159.76	Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, Eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price
WCVA (Gweinyddiaeth Ebrill)	£ 34.66	Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, Eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price.
Postio (Clerc)	£ 54.84	Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price, Eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns

Cof 40 / Mai /07 Incwm a Dderbyniwyd Ebrill 2007

Hysbysebu'r Tân Gwyllt	£ 40.00
Archaeoleg Cambria (Rhent)	£ 3,140.75
Archebiant CSC (taliad cyntaf)	£ 15,891.34
Llog - cyfredol	£ 0.18

Cof 41 / Mai / 07 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (30.4.07)	£ 24,292.14
LTC CYFRIF CYNILO (27.3..07)	£ 37,982.66
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.04.07)	£ 550.06

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price bod £15,000

i'w drosglwyddo i'r Cyfrif Cyfredol o'r Cyfrif Cynilo.

Cof 42 / Mai / 07 Materion Ariannol Eraill

1. Rhagolygon Tair Blynedd ar gyfer y Gyllideb.
   Adroddodd y Swyddog Cyllid bod y cyfrifon diwedd blwyddyn wedi'u cwblhau. Cafwyd trafodaeth ar y rhagolygon ar gyfer y tair blynedd nesaf mewn perthynas ag arian sydd ar gael i brosiectau a rhoddion.
2. Archwiliadau Ariannol Chwarterol – Ionawr, Chwefror, Mawrth 2007.
   Adroddodd y Cadeirydd y Cyng Pam Steane Price fod hyn wedi'i wneud. Aed ar ôl pedair eitem mewn perthynas â gwariant, ac un ar incwm. Amlygwyd 1 mân anghysondeb mewn perthynas â Chofnod Rhif 167/ Ionawr / 07 mewn perthynas â thaliad o £21,949.12 i D.Siggery (siec 101002). Mae'r cofnod yn dangos yr enw fel P. Siggery sy'n anghywir. Cywirwyd hyn.
3. Cofrestr Asedau
   Gofynnwyd i'r Clerc i weld a oedd gohebiaeth wedi dod oddi wrth Tŷ'r Drenewydd yn cadarnhau bod yr 8 sedd addurniadol wedi'u cofnodi fel rhai oedd ar fenthyciad dros dro.
   Argymhellodd y Cyng Hugh Towns y dylid gofyn i'r Cyng Colin Jenkins wneud archwiliad o'r celfi sy'n eiddo i'r Cyngor. Eiliwyd hyn gan y Cyng Pam Steane Price.
   Argymhellwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylai saer cloeon archwilio'r Sêff a chael allwedd, fydd yn golygu ei bod yn bosib ei defnyddio unwaith eto. Eiliwyd hyn gan y Cyng Pam Steane Price.
   Gofynnwyd i'r Clerc osod y Gofrestr Asedau ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w hystyried.

Cof 43 / Mai/ 07 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1. Aelodaeth o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Argymhellwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price y dylid rhoi caniatâd i'r Clerc fod yn aelod.
   Llythyr oddi wrth M. Williams mewn perthynas â defnydd y Cyngor o'r garej y gellir ei gloi. Gofynnwyd i'r Clerc ateb yn gofyn am anfoneb ffurfiol yn ogystal â derbyn yr amodau ar gyfer rhentu'r garej yn y dyfodol.

Cof 44 / Mai / 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Doedd yna ddim rhagor o fusnes

Daeth y cyfarfod i ben am 9.23 pm.